Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	21 Medi 2022
Aelod Arweiniol/Swyddog	Y Cyng. Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Nicola Kneale, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro ar y Cyd
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Adroddiad Archwilio Cymru – Ysgogi Gwelliant Parhaus mewn Perfformiad

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o adroddiad Archwilio Cymru ar Ysgogi Gwelliant Parhaus mewn Perfformiad ac ar ymateb dilynol y tîm rheoli. Mae'r adroddiad eglurhaol hwn yn cyflwyno uchafbwyntiau'r adolygiad, yn cynnwys ei gwmpas a'i ganlyniadau allweddol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I nodi'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei berfformiad.

2.2. Nodi ymateb y rheolwyr i argymhellion Archwilio Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru ar Ysgogi Gwelliant Parhaus mewn Perfformiad (Atodiad 1).

3.2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r camau a gytunwyd yn ymateb y rheolwyr (Atodiad 2).

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Medi 2021 cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor, a oedd yn cynnwys adolygu dogfennau, cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion a chynghorwyr, ac arsylwi cyfarfodydd o bell. Edrychodd yr adolygiad yn benodol ar y Gwasanaethau Amgylcheddol a Phobl Ifanc fel olrheinwyr i ddangos tystiolaeth o sut mae'r trefniadau corfforaethol yn cael eu rhoi ar waith mewn meysydd gwasanaeth.

4.2. Pwrpas yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: A yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn gadarn ac yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus a chynaliadwy wrth iddo adfer cydbwysedd o effaith COVID-19?

4.3. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad yn effeithiol, gyda rhai cyfleoedd i wella'r defnydd o'r feddalwedd rheoli perfformiad. Gallai'r Cyngor hefyd ystyried gwella adroddiadau perfformiad meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth; sut caiff gwybodaeth ariannol a gwybodaeth mewn perthynas â pherfformiad eu hystyried ar y cyd; a chofnodi sesiynau 1 i 1 staff mewn modd cywir a phriodol.

4.4. Gwnaeth Archwilio Cymru 4 argymhelliad, ac mae atodiad 2 yn amlinellu camau gweithredu arfaethedig y Cyngor i ymateb i'r rheiny.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2017 i 2022. Fodd bynnag, mae'n darparu sicrwydd bod ein prosesau ar gyfer mesur cynnydd ein blaenoriaethau yn dda, gan roi rhywbeth i ni adeiladu arno wrth i ni fwrw ymlaen â fframwaith Cynllun Corfforaethol 2022-2027.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau nac arian yn codi o'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn – nid oes angen gwneud unrhyw newid na phenderfyniad.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd adolygiad Archwilio Cymru gyda swyddogion perthnasol ac aelodau arweiniol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Yn yr un modd, mae'r adroddiad ac ymateb y tîm rheoli wedi'i gytuno arno gyda mewnbwn swyddogion allweddol ac aelodau arweiniol cyn ei gyhoeddi.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg arwyddocaol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen gwneud penderfyniad.